



# SWYDDOG CYFATHREBU

**GWYBODAETH RECRIWTIO**



# CYFLWYNIAD



## “Y CWMNI SY’N GWTHIO EI FFORDD I’N HYMWYBOD GYDAG ARDDELIAD”

Lyn Gardner, The Guardian

Mae **Common Wealth** yn gwmni theatr arloesol sydd wedi ennill gwobrau ac sy’n cynnal digwyddiadau theatr a pherfformiad penodol i safleoedd gan gwmpasu sain electronig, dulliau newydd o ysgrifennu, dylunio gweledol a chynnwys gair am air. Mae ein gwaith yn wleidyddol ac yn gyfoes - mae’n ymwneud â’r presennol ac yn mynd i’r afael â phynciau perthnasol a phryderon ein hoes.

Rydyn ni’n llwyfannu ein gwaith yng nghanol cymunedau – tŷ preswyl, campfa focsio, neu faes parcio – mannau lle gallai pobl na fyddai fel arfer yn mynd i’r theatr ddod yn lle. Rydym eisiau sicrhau bod theatr yn hygyrch ac o ddiddordeb i bobl dosbarth gweithiol, drwy roi llwyfan i’r dosbarth gweithiol fel prif gymeriadau, cydweithredwyr a pherfformwyr yn y gwaith artistig, ac fel cynulleidfaoedd. Ochr yn ochr â hyn, rydyn ni’n gweithio gyda thimau creadigol profiadol, hyfforddedig.

Mae ein syniadau wedi’u gwreiddio mewn gwleidyddiaeth sosialaidd, cefndiroedd dosbarth gweithiol, diddordeb brwd mewn celf gyfoes, y bobl rydyn ni’n cwrdd â nhw, ac uchelgais idealistig i newid pethau. Rydym yn gweld ein prosiectau artistig fel

ymgyrchoedd, fel ffordd o ddod â phobl ynghyd a gwneud i newid deimlo’n bosibl.

Mae Common Wealth wedi’i leoli yn Bradford a Chaerdydd ac yn gwneud gwaith sy’n teithio ledled y DU ac yn rhyngwladol. Mae prosiectau diweddar wedi cynnwys *Peaceophobia*, *Off the Curriculum*, *You are here as a witness*, *Reclaim the Space*, a *Fast, Fast, Slow*.

Mae Common Wealth yn Sefydliad Portffolio Cenedlaethol Cyngor Celfyddydau Lloegr, ac yn rhan o bortffolio Cyngor Celfyddydau Cymru. Rydyn ni hefyd yn cael ein hariannu’n rheolaidd gan Gyngor Bradford ac amrywiaeth o ymddiriedolaethau a sefydliadau.

Mae Common Wealth yn gwmni cyfyngedig (rhif 7799494) ac yn elusen gofrestrdedig (rhif 1185967). Cawn ein llywodraethu gan Fwrdd o Ymddiriedolwyr gwirfoddol sydd hefyd yn gwasanaethu fel Cyfarwyddwyr anweithredol, sydd wedi dirprwyo cyfrifoldeb o ddydd i ddydd i’r uwch dîm, y ddau sylfaenydd, y Cyd-Gyfarwyddwyr Artistig a’r Cyfarwyddwr Gweithredol.

# MANYLION Y RÔL

## Teitl y Rôl

Swyddog Cyfathrebu (Caerdydd)

## Yn atebol i

Rhiannon White, Cyd-Gyfarwyddwr Artistig  
(Caerdydd)

## Cyflog

£26,520 pro-rata. Byddem yn ystyried bod y rôl hon yn cael ei chyflawni gan weithiwr llawrydd (ar sail ariannol gyfatebol) yn dibynnu ar fodloni gofynion CTheF.

## Contract

Rhan-amser – 2 ddiwrnod yr wythnos, am 6 mis i ddechrau ac o bosibl tymor hwy yn dilyn adolygiad

## Gwyliau

7 diwrnod (Amser llawn: 35 diwrnod o wyliau â thâl y flwyddyn gan gynnwys gwyliau cyhoeddus a gwyliau banc Prydain (*pro-rata*). 35 x 0.4 (2/3 diwrnod) x 50% (*contract 6 mis*))

## Oriau arferol

7 awr y dydd yn gyffredinol o fewn 9am-6pm yn ystod yr wythnos, er y caiff gweithio hyblyg ei annog.

Mae angen gweithio rhywfaint ar benwythnosau ac yn ystod oriau anghymdeithasol hefyd yn unol â'n rhaglen - gellir trefnu amser i ffwrdd yn lle hynny, nid ydym yn talu goramser.

## Lleoliad

O leiaf 1 diwrnod yr wythnos yn ein swyddfa yn Neuadd Llanrhymni, Dwyrain Caerdydd, CF3. Mae angen teithio i leoliadau eraill yn achlysurol.

## Dyddiad dechrau

mis Ebrill 2024 yn ddefnyddiol

## Cyfnod prawf

2 fis

## Cyfnod rhybudd

1 mis

## Pensiwn

Rydym yn cynnig pensiwn o dan y ddeddfwriaeth cofrestru awtomatig gyda'r darparwr pensiwn, NEST. Mae Common Wealth yn gwneud cyfraniad o 3%, ac mae gweithwyr yn gwneud cyfraniad o 5%, ar ôl cwblhau'r cyfnod prawf.



# CRYNODEB

**MAE COMMON WEALTH YN CHWILIO AM SWYDDOG CYFATHREBU YNG NGHAERDYDD, AM GYFNOD O 6 MIS I DDECHRAU.**

Rheoli'r wefan, platfformau cymdeithasol gan gynnwys profiad amserlennu, a sgiliau ysgrifennu copi rhagorol, byddwch yn gweithio ar y cyd â swyddog yn Bradford i rannu newyddion, cyfleoedd a gwaith artistig y cwmni. Mae angen profiad o farchnata a chyfathrebu, yn enwedig ym maes cyfathrebu digidol.

## DISGRIFIAD O'R RÔL

### Eiriolaeth

- Eirioli dros waith Common Wealth wyneb yn wyneb a thrwy ddatblygu deunyddiau/asedau cyfathrebu ar gyfer ystod o gynulleidfaedd, gan gynnwys ysgrifennu copi crefftus a threfnu cyfieithu i'r Gymraeg

### Cynllunio/Strategaeth

- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu Cynllun Datblygu Cynulleidfa a Chyfathrebu ar gyfer y cwmni cyfan, gan gyfuno pob agwedd ar waith a gweithgareddau'r sefydliad (ochr yn ochr â Swyddog Cyfathrebu Bradford)

### Ymgyrchoedd Prosiect

- Datblygu a chyflawni cynlluniau/ymgyrchoedd cyfathrebu prosiect, mewn cysylltiad â gweddill y tîm a'n partneriaid prosiect

### Ymchwil a Rheoli Gwybodaeth

- Cynnal ymchwil i ddiweddarau ac ehangu cysylltiadau/rhanddeiliaid y sefydliad, i nodi cyllidwyr/cefnogwyr posibl a gweithredu arfer gorau o ran dulliau cyfathrebu hygyrch, dwyieithog a chynhwysol

### Proffil a'r Cyfryngau

- Sicrhau cysondeb brand y sefydliad ym mhob maes cyfathrebu (ochr yn ochr â Swyddog Cyfathrebu Bradford)
- Cefnogi'r wasg ac arbenigwyr cysylltiadau cyhoeddus rydyn ni'n gweithio gyda nhw ar gyfer prosiectau penodol ac ymgyrchoedd codi proffil er mwyn cynyddu sylw'r sefydliad yn y wasg a'r cyfryngau



# DISGRIFIAD O'R RÔL

## Cynhyrchu deunyddiau ac asedau

- Defnyddio ein hasedau brand i greu asedau cyfathrebu sylfaenol, cynnwys digidol a hysbysebion
- Rheoli pobl greadigol allanol i ddatblygu deunyddiau cyfathrebu hygyrch o ansawdd uchel

## Gwefan ac elfennau digidol

- Cynnal ac adnewyddu'r wefan i sicrhau ei bod yn ddeinamig, yn ddeniadol ac yn adrodd stori Common Wealth drwy ddiweddariadau cynnwys rheolaidd (ochr yn ochr â Communications Associates o Bradford)
- Cynllunio, ysgrifennu ac amserlennu ein gohebiaeth ddigidol gan gynnwys cylchlythyrau e-bost, postïadau cymdeithasol, blogiau a chynnwys ar-lein arall (ochr yn ochr â Swyddog Cyfathrebu Bradford)
- Monitro ein heffaith ddigidol (ochr yn ochr â Swyddog Cyfathrebu Bradford)

## Dogfennaeth

- Dogfennaeth ategol o weithgareddau'r sefydliad drwy ffotograffiaeth, fideos a dulliau eraill gan gynnwys ymgysylltu ag eraill i wneud y gwaith hwn

## Gwerthusiad

- Cefnogi uchelgeisiau'r sefydliad i ddatblygu ei gyrhaeddiad a'i effaith
- Cefnogi'r Cyfarwyddwr Gweithredol i ddatblygu Fframwaith Gwerthuso ar gyfer y sefydliad (ochr yn ochr â Swyddog Cyfathrebu Bradford)
- Datblygu asedau adborth a gwerthuso a gweithredu'r rhain, yn ogystal â choladu'r data, gan gynnwys mewnbynnu data
- Cefnogi dulliau monitro a gwerthuso effeithiolrwydd y Cynllun Datblygu Cynulleidfa a Chyfathrebu

## Gweinyddiaeth

- Cefnogi holl aelodau'r tîm drwy gyflawni tasgau gweinyddol megis ymchwilio ac archebu dulliau teithio a llety yn ogystal â thasgau rheolaidd yn ymwneud â chyllid a mewnbynnu data

## Arall

- Mynd i sesiynau dal i fyny wythnosol a chyfarfodydd cynllunio prosiect rheolaidd, yn ogystal â chymryd rhan mewn unrhyw sgysiau strategol perthnasol
- Ymgymryd â hyfforddiant, lle bo'n briodol, er mwyn bodloni nodau ac amcanion Cynllun Busnes y sefydliad ac ar gyfer datblygiad personol lle cytunir arnynt
- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu a gweithredu polisiau a gweithdrefnau Common Wealth yn ogystal â'r prosesau/offer mesur sy'n ofynnol gan ein cyllidwyr
- Cyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n gymesur â'r rôl

# MANYLEB Y PERSON

BYDDEM YN DISGWYL I'R RHAI SY'N GWNEUD CAIS FODLONI'R HOLL OFYNIION HANFODOL A RHAI O'R GOFYNIION DYMUNOL HEFYD:

## Hanfodol:

- O leiaf blwyddyn o brofiad o farchnata/ cyfathrebu
- Sgiliau cyfathrebu digidol – defnyddiwr naturiol o gymdeithasau cymdeithasol
- Gallu cyfathrebu ar lafar yn gryf ac yn gyfforddus, gan siarad ag ystod eang o bobl. Rhugl yn Saesneg (er nad oes rhaid i Saesneg fod yn iaith gyntaf i chi) ac yn siarad Cymraeg yn ddelfrydol.
- Sgiliau ysgrifennu cryf, y gellir eu haddasu at ystod o ddibenion
- Sylw ardderchog i fanylion, a chywirdeb
- Synnwyr dylunio gweledol/graffig da
- Lefel uchel o lythrennedd cyfrifiadurol
- Sgiliau gweinyddol cryf, rheoli amser yn drefnus ac yn dda
- Gallu cymell eich hun, dangos menter a pherchnogaeth, ac yn gallu gweithio'n annibynnol heb oruchwyliaeth, ac fel rhan o dîm
- Gallu gweithio ar yr un pryd ar draws ystod o brosiectau, i flaenoriaethu llwyth gwaith, a gweithio i derfynau amser tynn
- Gallu gweithio'n ddiogel ac yn gyfrinachol drwy fynediad ar y we gartref lle bo angen
- Parodrwydd i wneud gwaith gyda'r nos ac ar benwythnosau yn ôl yr angen a allai, o bryd i'w gilydd, olygu teithio
- Gwybodaeth am theatr neu'r celfyddydau a diddordeb ynddynt
- Ymrwymiad i gyfle cyfartal a chynhwysiant a chyfraniad at ein polisi a'n cynlluniau gweithredu
- Ymrwymiad i gyfiawnder hinsawdd a chyfrannu at ein polisi a chynlluniau gweithredu

## Dymunol:

- Dwyieithog - Cymraeg a Saesneg
- Profiad o reoli cysylltiadau ac ymgyrchoedd gyda'r cyfryngau
- Profiad o ddefnyddio rhaglenni dylunio fel Adobe Photoshop/InDesign/ Illustrator, Final Cut Pro, Light Room, Canva (mae modd darparu hyfforddiant)
- Dealltwriaeth a diddordeb mewn dysgu a gwerthuso
- Gwybodaeth am GDPR
- Gwybodaeth am Common Wealth
- Gwybodaeth am berfformiadau cyfoes a diddordeb ynddynt
- Profiad blaenorol / awydd i weithio o bell neu mewn ffordd hybrid



# GWNEUD CAIS AC AMSERLEN

Rydyn ni'n croesawu ceisiadau gan bawb ac yn arbennig yn annog pobl o gefndiroedd dosbarth gweithiol ac eraill sy'n cael eu tangynrychioli yn y diwydiant theatr, a'r rhai sy'n profi gwahaniaethu, i wneud cais. Mae hyn yn cynnwys pobl Ddu, Asiaidd, Roma, Dwyrain Ewrop, cwiar, sydd â phrofiad byw o anabledd, sydd â chyfrifoldebau gofalu neu sydd â phrofiad o ofal.

Anfonwch eich CV cyfredol, ynghyd â llythyr eglurhaol heb fod yn fwy na 3 ochr A4 yn manylu ar sut yr ydych yn bodloni'r fanyleb person i [recruitment@commonwealththeatre.co.uk](mailto:recruitment@commonwealththeatre.co.uk) erbyn 10am, dydd Llun 4 Mawrth 2024.

Gallwch hefyd nodi'r holl wybodaeth hon (CV a sut rydych chi'n bodloni manyleb y person) drwy glip sain neu fideo (dim mwy na 4 munud) a'i anfon drwy e-bost.

Rydym yn ymroddedig i fodloni gofynion mynediad; rhowch wybod i ni beth sydd ei angen arnoch, drwy [recruitment@commonwealththeatre.co.uk](mailto:recruitment@commonwealththeatre.co.uk)

Llenwch ein Ffurflen Cyfle Cyfartal [yma](#) hefyd.

Bydd y rhai sy'n cael gwahoddiad i gyfweiliad ar gyfer y rôl yn cael gwybod hynny erbyn dydd Mercher 6 Mawrth 2024.

Byddwn yn rhoi gwybod i bob ymgeisydd a yw wedi bod yn llwyddiannus ai peidio.

I'r rhai sydd ar y rhestr fer ar gyfer cyfweiliad, byddwn yn gofyn i chi ddod i sgwrs anffurfiol wyneb yn wyneb neu ar-lein gydag ychydig o aelodau'r tîm.

Cynhelir cyfweiliadau ddydd Llun 18 Mawrth neu ddydd Mawrth 19 Mawrth 2024.





TWITTER & INSTAGRAM: @COMMON\_WEALTHHQ

COMMONWEALTHTHEATRE.CO.UK

